# Cynllunio a threfnu eich gwaith mewn amgylchedd gwasanaethau ariannol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a threfnu eich gwaith eich hun, yn ogystal â sut rydych chi'n gweithio gydag eraill. Byddwch yn cynllunio ac yn blaenoriaethu eich gwaith, ac yn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni. Bydd disgwyl i chi gyfranogi'n gadarnhaol ac yn adeiladol er mwyn cyflawni'r allbynnau angenrheidiol. Bydd rhaid i chi reoli eich gwaith yn effeithiol bob amser, a bydd angen i chi ryngweithio ag eraill er mwyn cyflawni canlyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi a blaenoriaethu eich gwaith i sicrhau bod amcanion gwaith yn cael eu cyflawni
2. Gwirio bod gennych chi'r holl adnoddau angenrheidiol i gwblhau gwaith a chynhyrchu'r allbynnau gofynnol
3. Adrodd am unrhyw anawsterau o ran y gwaith a'u trafod gyda'r bobl briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Ceisio cyngor yn ôl y galw i ymateb i ofynion gwaith a chwblhau gwaith at y safonau gofynnol
5. Cydweithredu â chydweithwyr, a chynnig cymorth iddynt, i'w helpu i gyflawni amcanion gwaith
6. Cyflawni ymrwymiadau gwaith a wnaed i gydweithwyr eraill lle bynnag y bo modd
7. Rhoi gwybod i gydweithwyr am unrhyw anawsterau wrth gyflawni ymrwymiadau gwaith
8. Gwirio sut rydych chi'n defnyddio eich amser yn y gwaith a nodi gwelliannau posibl yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Cefnogi cydweithwyr a delio gyda nhw mewn modd proffesiynol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Defnyddio arddulliau cyfathrebu priodol ar gyfer gwahanol bobl a sefyllfaoedd
11. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y mathau o anawsterau y gallech eu hwynebu a allai effeithio ar eich cynlluniau gwaith
2. Y bobl y dylech chi roi gwybod iddynt am broblemau wrth reoli gwaith neu faterion cysylltiedig â'r tîm
3. Diben, gwerth a phwysigrwydd trefnu eich gwaith eich hun yn effeithiol
4. Sut mae rheoli eich amser yn effeithiol
5. Yr offer cynllunio gwaith sydd ar gael i chi eu defnyddio
6. Yr adnoddau y mae arnoch eu hangen i reoli eich gwaith
7. Y broses gynllunio ehangach y mae eich cynlluniau unigol yn gysylltiedig â hi
8. Gan bwy mae ceisio help pan fydd angen
9. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol
2. Rydych yn ystyried pa effaith mae eich ymddygiad yn ei chael ar eraill
3. Rydych yn ceisio deall anghenion pobl eraill

FSPFCC02

Cynllunio a threfnu eich gwaith mewn amgylchedd gwasanaethau ariannol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPFCC02 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Cymwyseddau Craidd Gwasanaethau Ariannol |
| **Geiriau Allweddol** | Hunan-ddatblygiad; amcanion gwaith; gwaith tîm; rôl gwaith; amcanion; perthnasoedd gwaith; cyfathrebu; cydweithwyr; rheoliadol; polisi; gweithdrefn; cydymffurfio; diffyg cydymffurfio |